

❖ MAWR YW DIRGELWCH EIN FFYDD

A ninnau yn nhymor yr Adfent bŵm yn darllen rhai o bregethau a gweithiau rhai o gewri'r gorffennol ar thema'r Nadolig a chael syndod pleserus o sylweddoli eu bod yn ymdrin â'r union wirioneddau a bwysleisir gan yr Eglwys heddiw. Yn wir, ni all pethau fod yn wahanol gan mai braint aruthrol yr Eglwys drwy'r canrifoedd yw cyhoeddi y 'ffydd a roddwyd un waith i'r saint'. Y mae'r Ymgawdoliad, genedigaeth Mab Duw o'r Forwyn Fair, yn elfen hanfodol o'r ffydd honno. Sonia'r Apostol Paul mai 'mawr yw dirgelwch ein ffydd' ac wrth fyfyrion ar y Nadolig, cwbl briodol yw pwysleisio'r dirgelwch hwnnw.

Dyna a wna Awstin, esgob Hippo, mewn pregeth o'r bumed ganrif:

Na foed i neb, felly, gredu ddarfod i Fab Duw gael ei newid neu'i drawsffurfio'n Fab dyn; yn hytrach boed inni gredu iddo tra'n parhau i fod yn Fab Duw gael ei wneud yn Fab dyn, heb fod dim o'i hanfod dwyfol yn mynd i golli wrth iddo gymryd iddo'i hun hanfod dynol.

Ac nid yw'r geiriau, 'A Duw oedd y Gair' a 'daeth y Gair yn gnawd', yn arwyddo ddarfod gwneud y Gair yn gnawd mewn ffordd a barodd iddo beidio â bod yn Dduw; oherwydd ddarfod gwneuthur y Gair yn gnawd y ganwyd 'Emaniwel', Duw gyda ni.

Dyna'r dirgelwch. Ac nid ceisio chwilio allan y dirgelwch hwn a wna Awstin ond ceisio sôn amdano, er mwyn addysgu ei gynulleidfa, mewn ffordd sy'n gyson â'r Testament Newydd: gosod canllawiau – a dyna'n unig sydd yma – rhag inni gyfeiliorni wrth feddwl ac wrth fyfyrion ar yr Ymgawdoliad.

Mae angen yr union ganllawiau arnom heddiw i'n cadw ninnau fel Cristnogion rhag arddel syniadau cyfeiliornus amdano. Nid gormod yw annog ein gilydd i geisio meddwl yn gywir am wirioneddau mawr ein ffydd. Yr hyn a wnawn wrth fodloni ar ddweud rhywbeth rywbeth am Grist yw ei ysbeilio o'i ogoniant. Na fod inni'r Nadolig hwn ei ddiraddio drwy goleddu rhyw syniad isel am ei berson. Gwrandawn eto ar Awstin yn ymhelaethu ar wrtheb y Nadolig:

Gorwedda mewn preseb, ond y mae'n cynnal y byd. Derbynia faeth ar fronau ei fam, ond y mae'n bwydo'r angylion. Fe'i rhwymwyd mewn cadachau, ond fe rydd i ni ddilledyn anfarwoldeb... Ni chaiff le yn y gwesty, ond fe adeilada deml iddo'i hun yng nghalonau y rhai a gred ynddo.

Cawn ein hatgoffa'n hyfryd gan Athanasios (ganwyd tua 297 yn yr Aifft) yn ei draethawd *De Incarnatione*, sy'n un o glasuron y Ffydd Gristnogol, nad baban arferol oedd y baban Iesu:

Genedigaeth pwy a ragflaenwyd gan seren yn y nefoedd i gyhoeddi i'r byd yr un a anwyd? Oherwydd pan anwyd Moses, fe'i cuddiwyd gan ei rieni. Ni chlywyd am Ddafydd hyd yn oed gan rai o'i gymdogaeth, ac nid oedd Samwel fawr yntau'n gwybod amdano, eithr holer. A oes gan Jesse fab arall eto? Drachefn wedi dod i oed y daeth Abraham yn hysbys i'w gymdogion. Ond am enedigaeth Crist, nid dyn a oedd yn dyst ond seren a ymddangosai yn y nefoedd, o'r lle yr oedd ef yn disgyn.

Neidiwn dros y canrifoedd a thrown i mewn i eglwys yn yr Almaen ar ddydd Nadolig 1530 i wrando ar Martin Luther yn pregethu:

Holwch eich hunain i weld a ydych yn Gristion ai peidio! Os medrwch ganu: Y Mab, yr hwn a gyhoeddir yn Arglwydd ac yn Waredwr, yw fy Ngwaredwr i; ac os medrwch ategu neges yr angel gan ddweud ie wrtho a'i gredu yn eich calon, llenwir eich calon â sicrwydd, llawenydd a hyder ac ni chewch eich blino ynghylch y pethau gorau a gynigir gan y byd. Oherwydd pan fyddwyf yn siarad â'r Forwyn o eigion fy nghalon gan ddweud: Mair, forwyn dirion, ti a esgoraist ar fab; hwn a chwenychaf uwch arian a meddiannau, ie, uwch bywyd ei hun; yna yr ydych yn nes at y trysor nag at ddim yn y nefoedd ac ar y ddaear.

Gadewch i ninnau ddiolch am y trysor hwn.

Gwyndaf Jones